# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0403(ESH) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar 16 Mehefin 2008

**At Jenny Randerson:**

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn y pryderon ynghylch y trothwy ar dendrau gan fusnesau bach a chanolig ar gyfer Prosiectau adeiladu iechyd a godwyd gennych yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Mehefin ac yn eich llythyr ar 3 Mehefin.

Mae cytundebau fframwaith y fenter Cynllun Oes: Adeiladu ar gyfer Cymru yn cynnwys adolygiad cyfnodol o'r trothwy gwreiddiol o £5 miliwn i adlewyrchu chwyddiant adeiladu yn seiliedig ar fynegeion cenedlaethol. Ym mis Ebrill, adolygodd y Bwrdd Fframwaith Strategol y trothwy a'i gynyddu i £6 miliwn. Bydd y trothwy yn cael ei adolygu eto ym mis Ebrill 2009.

Dyluniwyd y Fframwaith i helpu i sicrhau y bydd cwmnïau Cymreig llai a gweithwyr hunangyflogedig yn y diwydiant adeiladu yn elwa fel isgontractwyr i'r cwmnïau hyn. Mae'r cytundebau'n ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid cadwyn gyflenwi gyflogi gweithwyr / isgontractwyr o’r ardal leol, ac o ran cynaliadwyedd, maent yn dewis deunyddiau a chydrannau lleol.

Rwy'n anfon y llythyr hwn ymlaen at Weinidog yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0350(HER) a gyhoeddwyd gan Rhodri Glyn Thomas, y Gweinidog dros Dreftadaeth, ar 2 Gorffennaf 2008

**At Bethan Jenkins:**

Yn ystod fy sesiwn Cwestiynau Llafar y Cynulliad ar 4 Mehefin, cytunais y byddwn yn rhoi’r diweddaraf i chi am unrhyw ddatblygiadau newydd y byddwn yn clywed amdanynt o ran ymgyrch dotCYM.

Fel y gwyddoch, mae mater ymgyrch dotCYM yn rhan o bortffolio Ieuan Wyn Jones AC, y Dirprwy Brif Weinidog.

Ar hyn o bryd mae ei swyddogion yn datblygu ymrwymiad Cymru’n Un i gefnogi cais ar gyfer enw parth lefel uchaf i Gymru.

Mae’r Dirprwy Brif Weinidog yn cefnogi DotCYM yn eu cais i Internet Corporation for Assigned Names and Numbers (ICANN), y corff sy’n gyfrifol am gonfensiynau enwi’r rhyngrwyd.

Oherwydd nad yw Cymru yn gymwys o dan feini prawf y Cenhedloedd Unedig fel gwlad annibynnol, rhaid mai cais am enw parth lefel uchaf dan nawdd yw hwn.

Rwy’n cael ar ddeall bod swyddogion y Dirprwy Brif Weinidog a’r cynghorwyr arbennig yn cwrdd yn rheolaidd â chynrychiolwyr ymgyrch DotCYM, a daeth cais i law yn ddiweddar i gael cyllid tymor byr. Mae DotCYM hefyd wedi rhoi amlinelliad o’r incwm a’r gwariant a ragwelir os bydd y cais yn llwyddiannus.

Mae swyddogion y Dirprwy Brif Weinidog yn edrych ar ffyrdd i Lywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi’r ymgyrch mewn ffordd fwy ymarferol. Maent wrthi’n datblygu amrywiaeth o

opsiynau iddo’u hystyried. Rwy’n cael ar ddeall y bydd yn rhoi bwletinau rheolaidd ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch holl ymrwymiadau Cymru’n Un.